

Polisi Rheoli Data Ymchwil

Fersiwn 2.0

Teitl y Polisi	Polisi Rheoli Data Ymchwil
Dyddiad Cymeradwyo	09 Tachwedd 2016
Corff Cymeradwyo	Grŵp Llywio Rheoli Data Ymchwil a Cyrchu Agored
Fersiwn	2.0
Disodli	1.0
Dyddiad yr adolygiad blaenorol	Awst 2016
Dyddiad yr adolygiad nesaf	Awst 2017
Perchennog y polisi	Dirprwy Is-Ganghellor – Ymchwil ac Ansawdd Academaidd
Prif gyswllt	Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil a Rheolwr Monitro Ymchwil

Mae'r polisi hwn yn diffinio'r cyfrifoldebau, ar lefel unigol a sefydliadol, a ddylai dywys gwaith y rhai sy'n ymwneud â chasglu, cadw a chynnal data.

1. Caiff data ymchwil ei reoli i'r safonau uchaf trwy gydol cylch bywyd y data ymchwil fel rhan o ymrwymiad y Brifysgol i ragoriaeth ymchwil.
2. Yn ystod cyfnod prosiect neu raglen ymchwil mae'r cyfrifoldeb am reoli data ymchwil, trwy gyfrwng cynllun rheoli data ymchwil, gan y Prif Archwilwyr.
3. Rhaid i bob cynnig ymchwil newydd gynnwys cynlluniau rheoli data ymchwil sy'n rhoi sylw'n benodol i gaffael, rheoli, cywirdeb, cyfrinachedd, cadw, rhannu a chyhoeddi data.
4. Rhaid i gynlluniau rheoli data ymchwil sicrhau bod data ymchwil ar gael ar gyfer mynediad ac ailddefnyddio lle bo'n briodol ac o dan y mesurau diogelwch angenrheidiol.
5. Rhaid i fuddiannau cyfreithiol unigolion sy'n gyfranogwyr data ymchwil gael eu gwarchod.
6. Dylai data a chofnodion ymchwil gydymffurfio â'r canlynol:
 - Bod yn gywir, yn gyflawn, yn ddilys a dibynadwy
 - Bod modd eu hadnabod, eu hadfer, a chael mynediad iddynt
 - Rhaid eu cadw mewn dull cwbl ddiogel
 - Rhaid eu cadw mewn dull sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a, lle bo'n briodol, gofynion cyrff cyllido a phrotocoliau prosiect-benodol a gymeradwyr gan Banel Moeseg Ymchwil y Brifysgol.
 - Rhaid bod modd eu rhannu ag eraill yn unol ag egwyddorion priodol moeseg, rhannu data a mynediad agored
7. Rhaid cadw data ymchwil ac unrhyw gofnodion cysylltiedig cyhyd â'u bod o werth parhaus i'r ymchwilydd a'r gymuned ymchwil ehangach, a chyhyd ag a nodir gan y sawl sy'n cyllido'r ymchwil, cyfraith patentau, gofynion cyfreithiol a gofynion rheoleiddiol eraill. Rhaid cadw data a chofnodion ymchwil am o leiaf tair (3) blynedd ar ôl cyhoeddi neu ryddhau'r gwaith ymchwil yn gyhoeddus. Mewn llawer i achos, bydd ymchwilwyr yn penderfynu cadw data a chofnodion ymchwil am gyfnod hwy na'r isafswm a nodir.
8. Dylai papurau ymchwil a gyhoeddwyd gynnwys datganiad byr sy'n disgrifio sut ac ar ba delerau y gall gael gaffael ar unrhyw ddata ymchwil ategol.
9. Yn amodol ar fuddiannau trydydd parti, bydd data ymchwil sy'n cynorthwyo gwaith ysgolheigaidd a gynhrychir gan aelod o staff Prifysgol, yn eiddo i'r Brifysgol ac fe gaiff ei gadw am gyfnod priodol yn unol â phwynt 7. Gall y cyfnod hwn fod yn hwy na chyfnod cyflogaeth aelod o staff yn y Brifysgol.
10. Yn amodol ar fuddiannau trydydd parti, bydd data ymchwil sy'n cynorthwyo gwaith ysgolheigaidd a gynhrychir gan fyfyrwr yn y Brifysgol, yn parhau'n eiddo deallusol y myfyrwr ac fe'i cedwir am gyfnod priodol o amser yn unol â phwynt 7.
11. Os yw data a chofnodion ymchwil i'w dileu neu dinistrio, naill ai oherwydd bod y cyfnod cadw y cytunwyd arno wedi dod i ben neu am resymau cyfreithiol neu foesegol, dylid gwneud hyn yn unol â gofynion cyfreithiol, moesegol, gofynion cyllidydd yr ymchwil a chydweithwyr a chyda golwg benodol ar gyfrinachedd a diogelwch.
12. Cynigir data ymchwil i'w roi ar adnau a'i gadw mewn gwasanaeth data rhyngwladol neu genedlaethol priodol neu gadwrfa pwnc-benodol, neu gadwrfa Prifysgol.
13. Bydd y Brifysgol yn rhoi hyfforddiant, cymorth a chynngor a lle bo'n briodol ganllawiau a thempladau ar gyfer rheoli data ymchwil a chynlluniau rheoli data ymchwil.
14. Bydd y Brifysgol yn rhoi cynngor ac yn darparu dulliau a gwasanaethau ar gyfer cadw, creu copiâu, cofrestru, rhoi asedau ymchwil ar adnau a chadw asedau ymchwil er mwyn cynorthwyo mynediad ar yr adeg honno ac yn y dyfodol, yn ystod ac ar ôl cwblhau prosiectau ymchwil.
15. Dylai unrhyw ddata sy'n cael ei gadw y tu allan i Brifysgol Aberystwyth, er enghraifft, mewn gwasanaeth data rhyngwladol neu gadwrfa pwnc-benodol, gael ei gofrestru gyda'r Brifysgol.
16. Ni ddylid rhoi i gyhoeddwyr masnachol neu asiantaeth yr unig hawl i ailddefnyddio neu gyhoeddi data ymchwil heb gadw'r hawl i wneud y data yn agored i'w ailddefnyddio, oni bai bod hyn yn amod cael cyllid.